**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Deiseb: P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn
Gorffennaf 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8421
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

Deiseb: P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn
Gorffennaf 2012

## Y Pwyllgor Deisebau

Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar 15 Mehefin 2011. Ei rôl yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Rhaid i'r deisebau fod ar faterion y mae gan y Cynulliad y pŵer i weithredu arnynt. Mae'r broses ddeisebau yn galluogi'r cyhoedd i amlygu materion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Cynulliad. Nodir ei swyddogaethau penodol yn Rheol Sefydlog 23.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**William Powell (Cadeirydd)**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Bethan Jenkins**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Cyn Aelodau'r Pwyllgor



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Val Lloyd**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn



**Andrew RT Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**Mike German**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Dwyrain De Cymru



**Veronica German**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Dwyrain De Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **6**

**Cyflwyniad** ..... **8**

Cwmpas yr adroddiad hwn ..... 9

**1. Ardal warchodedig** ..... **10**

**2. Cocos Mornant Porth Tywyn** ..... **12**

**3. Yr alwad am ymchwiliad cyhoeddus** ..... **14**

**4. Atal gollyngiadau pellach** ..... **16**

Atebion tymor byr ..... 18

Pwysau yn y dyfodol ..... 18

**5. Gwella rheolaeth y safle** ..... **20**

**6. Cefnogi'r diwydiant cocos ym Mornant Porth Tywyn** ..... **22**

**Atodiad A: Tystion** ..... **23**

**Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... **24**

## Rhagair y Cadeirydd

Mae gan y casglwyr cocos ym Mornant Porth Tywyn bob rheswm i deimlo'n chwyrn am yr holl gocos sydd wedi marw a gafodd effaith ddinistriol ar eu diwydiant a oedd ar un adeg mor llewyrchus. Ers 2002, maent wedi bod yn cael trafferth deall achos y marwolaethau ac er i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gomisiynu astudiaeth gynhwysfawr, roedd y canfyddiadau'n amhendant am yr achosion a dyfodol y cocos ym Mornant Porth Tywyn.

Ym mis Medi 2009, cyflwynwyd deiseb i Bwyllgor Deisebau'r Trydydd Cynulliad yn galw am ymchwiliad cyhoeddus i'r mater. Ystyriodd y Pwyllgor hwnnw'r mater a chroesawodd yr astudiaeth drwyadl a oedd wedi'i chynnal. Mae'r Pwyllgor Deisebau presennol hefyd yn croesawu'r astudiaeth honno, ond yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y sefyllfa ym Mhorth Tywyn ac yn ceisio canfod ffordd ymlaen a fydd yn darparu cymorth i'r diwydiant cocos yn yr ardal, a hefyd yn sicrhau y bydd yr asiantaethau dan sylw yn parhau i ganolbwyntio eu hymdrechion ar ganfod atebion i'r problemau sy'n wynebu'r ardal.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Lywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Dŵr Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin am eu gwaith ar y mater, ac am eu cymorth gydag ymchwiliad y Pwyllgor.

Hoffai'r Pwyllgor hefyd ddiolch i'r deisebwyr am eu hymdrechion diflino i amddiffyn yr amgylchedd lle maent yn gweithio. Er na all y Pwyllgor Deisebau gefnogi eu galwad am ymchwiliad cyhoeddus y tro hwn, mae'n cefnogi dyhead y deisebwyr i gadw'r mater hwn yn fyw ym meddyliau'r asiantaethau dan sylw. Mae eu dealltwriaeth o'r amgylchedd morol cymhleth ym Mornant Porth Tywyn yn gaffaeliad y mae'r Pwyllgor yn gobeithio manteisio'n llawn arno wrth i ragor o waith gael ei wneud i wella'r ddealltwriaeth o'r ffactorau niferus sy'n dylanwadu ar farwolaethau'r cocos a'r ffordd y rheolir y ffactorau hynny. Mae'n hollbwysig bod y wybodaeth leol hon yn cael ei gwerthfawrogi'n llawn yn y gwaith sydd o'n blaenau.

William Powell AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trin yr angen am welliannau i'r system garthion yn ardal Llanelli fel blaenoriaeth ac mae'n gweithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau'r lefel angenrheidiol o fuddsoddiad yn yr ardal. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Dŵr Cymru i roi atebion ar waith a fydd yn ysgafnhau'r pwysau ar y system garthion yn ardal Porth Tywyn yn y tymor byr, tan i'r atebion hirdymor sydd ar y gweill ar gyfer yr ardal gael eu gweithredu'n llawn. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth frwd i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Dŵr Cymru wrth iddynt ddarparu ateb draenio integredig ar gyfer Llanelli cyn gynted ag sy'n ymarferol. Dylai'r ateb draenio integredig geisio dargyfeirio llawer iawn o ddŵr ffo o'r system garthion er mwyn sicrhau cyn lleied o ollyngiadau â phosibl yn y dyfodol. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag asiantaethau priodol i hwyluso'r astudiaethau pellach a awgrymwyd gan yr Institute of Estuarineand Coastal Studies, ac yn ystyried profiadau ac arsylwadau'r casglwyr cocos am y gwelyau cocos yn ystod Llanw Isel fel rhan o'r astudiaethau pellach hynny. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac unrhyw gyrff olynol a Chyngor Sir Caerfyrddin yn cyhoeddi canlyniadau pob prawf ansawdd dŵr ar gyfer Ardal Porth Tywyn, ac yn annog Dŵr Cymru yn frwd i wneud yr un fath. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig lefel gyffelyb o gefnogaeth i'r rhai y mae'r dirywiad yn niwydiant cocos Porth Tywyn wedi ei effeithio arnynt ag y mae'n ei gynnig i ardaloedd eraill sydd wedi dioddef yn sgil colli cyflogwr mawr.
(Tudalen 22)

## Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Deisebau yn bodoli i ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Ym mis Medi 2009, cyflwynwyd deiseb i Bwyllgor Deisebau y Trydydd Cynulliad gan Rhys Williams a oedd wedi casglu 2,240 o lofnodion o blaid y datganiad canlynol:

> "Deiseb gan drigolion Sir Gaerfyrddin yn gofyn am ymchwiliad cyhoeddus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r llygredd carthffosiaeth ym Mornant Porth Tywyn a Bae Caerfyrddin."

3. Mae ardal Mornant Porth Tywyn a Bae Caerfyrddin yn boblogaidd gyda phobl sy'n mwynhau'r traeth a nofio yn y môr. Mae gan yr ardal hefyd draddodiad hir o ffermio cocos.

4. Cyflwynwyd y ddeiseb ar ôl sawl achos o'r system garthion yn gorlifo i afonydd lleol sy'n llifo i'r môr yn ardal Mornant Porth Tywyn a Bae Caerfyrddin. Cawsant eu hachosi'n bennaf gan broblemau capasiti'r system garthffosiaeth leol a oedd yn cael ei rhoi dan bwysau enfawr mewn stormydd wrth i ddŵr ffo ychwanegu'n sylweddol at gyfaint y dŵr a oedd yn cael ei brosesu gan y gweithfeydd trin.

5. Ym mis Mehefin 2005, arweiniodd pibell wedi torri at ollyngiadau sylweddol. Arweiniodd y gollyngiadau yn ystod yr haf hwnnw at gau rhai traethau i nofwyr gan fod carthion heb eu trin wedi'u gollwng i'r môr.

6. Ers 2002, mae'r casglwyr cocos yn yr ardal wedi sylwi ar farwolaethau cocos di-rif bob blwyddyn, ond ar ôl y gollyngiadau yn 2005, mae tystiolaeth anecdotaidd wedi awgrymu bod y marwolaethau cocos di-rif hyn bob blwyddyn wedi mynd o ddrwg i waeth. Mae'r marwolaethau ar raddfa fawr hon wedi distrywio'r diwydiant cocos yn yr ardal gyda chasglwyr cocos yn amcangyfrif bod yn rhaid iddynt ymdopi gyda dim ond 12 wythnos o waith y flwyddyn bellach.[1] Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r cynlluniau a wnaed ganddynt ddechrau 2002 i gynyddu'r fasnach allforio.

7. Arweiniodd y gollyngiadau at ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn Dŵr Cymru. Ym mis Ebrill 2011, cafodd Dŵr Cymru ddirwy o £20,000

---

[1] Nodyn Ymweliad Safle y Pwyllgor Deisebau â Phorth Tywyn

gan y llysoedd am ollwng carthion, ond ni ddyfarnwyd iawndal i'r diwydiant cocos oherwydd na ellid profi bod cysylltiad rhwng y gollyngiadau a'r holl gocos a fu farw.

8. Ers hynny mae'r casglwyr cocos wedi cyflwyno cwyn i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r deisebwyr wedi hysbysu'r Pwyllgor bod achos yn cael ei baratoi gan Swyddfa Amgylchedd Ewrop ar gyfer erlyniad yn Llys Cyfiawnder Ewrop.

**Cwmpas yr adroddiad hwn**

9. Ym mis Ionawr 2012, cyhoeddodd yr Institute for Estuarine and Costal Studies ganfyddiadau ei ymchwiliad i farwolaethau cocos Mornant Porth Tywyn. Estynnwyd rhaglen dwy flynedd wreiddiol y Sefydliad o flwyddyn er mwyn cynnal mwy o ddadansoddiadau integredig o'r data, ac nid oes gan y Pwyllgor y wybodaeth arbenigol na'r dymuniad i herio canfyddiadau'r adroddiad hwnnw. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir:

> "there is no evidence that pollution in the water or sediment is related to the mortalities."[2]

10. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod casglwyr cocos yn daer o'r farn bod y gollyngiadau carthion, ac yn enwedig y gollyngiadau ym mis Mehefin 2005, wedi cyfrannu at farwolaethau di-rif y cocos ym Mornant Porth Tywyn. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2010 sicrhawyd Pwyllgor Deisebau'r Trydydd Cynulliad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar y pryd, sef Jane Davidson AC:

> "The June 2005 incident has been brought to the attention of the independent researchers investigating the ongoing cockle mortality. They have confirmed that this will be considered, along with all other evidence, as part of the ongoing cockle mortality investigation."[3]

11. O ystyried canfyddiadau'r adroddiad a chwyn y casglwyr cocos i'r Comisiwn Ewropeaidd, ni fyddai'n briodol i'r Pwyllgor hwn ystyried mater bai neu iawndal.

---

[2] Papur Pwyllgor '*Environment Agency Wales update to the Welsh Assembly Petitions Committee on the outcome of the Burry Inlet Cockle Mortality Investigation Report 2009-2011, dated January 2012*', 1 Mai 2012

[3] Llythyr gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 25 Hydref 2010.

## 1. Ardal warchodedig

12. Mae Mornant Porth Tywyn wedi'i lleoli yn Sir Gâr. Afonydd Casllwchwr, Lliw a Llan yw prif is-afonydd y fornant. Yn ogystal â'r afonydd sy'n llifo i'r ardal, mae ceryntau llanw sy'n ychwanegu at y drefn hydrodynameg a'r gwaddodiad cysylltiedig. Mae Mornant Porth Tywyn wedi'i dynodi yn rhan o safle Morydau a Bae Caerfyrddin o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Cydnabyddir y safle'n rhyngwladol am ansawdd a maint ei wastadeddau llaid a thywod rhynglanwol ac am y poblogaethau pwysig o adar sy'n bwyta pysgod cregyn. Fe'i dynodir, felly, yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safle Ramsar. Mae wedi'i ddynodi ymhellach yn genedlaethol fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

13. Mae traethau yn yr ardal sy'n boblogaidd gyda thrigolion lleol a thwristiaid, ac mae rhai ohonynt wedi ennill statws Baner Las.

14. Dywedodd deisebwyr wrth y Pwyllgor fod y traeth ym Mhorth Tywyn yn draeth ymdrochi dynodedig ac felly bod disgwyl i'r dŵr ymdrochi fodloni safon Cyfarwyddeb y CE ar Ddŵr Ymdrochi. Mae'r gwelyau cocos ym Mornant Porth Tywyn hefyd yn cael eu diogelu gan reoliadau pysgod cregyn Ewropeaidd.

15. Ym mis Hydref 2009, dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wrth y Pwyllgor:

> "The Assembly Government is responsible for the implementation of a number of key European obligations relating to the prevention of pollution or protection of water quality which are relevant in this area. These include the Shellfish Waters Directive, the Urban Wastewater Treatment Directive and the Water Framework Directive."[4]

16. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd:

> "Dwr Cymru Welsh Water is responsible for the sewerage system and the Environment Agency has an obligation in ensuring water company discharges are compliant with European Council Directives to protect the Environment."[5]

[4] Llythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 20 Hydref 2009
[5] ibid

17. Dywedodd deisebwyr wrth y Pwyllgor eu bod yn credu bod gan yr awdurdod lleol hefyd ddyletswyddau i brofi ansawdd dŵr traethau nad ydynt yn draethau ymdrochi er mwyn rhoi sylw priodol i ddiogelwch y cyhoedd sy'n defnyddio'r traethau hynny. Fodd bynnag, ni enwyd deddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â thraethau nad ydynt yn rhai ymdrochi.

## 2. Cocos Mornant Porth Tywyn

18. Dywedodd y deisebwyr wrth y Pwyllgor fod y marwolaethau wedi digwydd bob mis Mai ers 2005.

19. Dywedodd adroddiad yr Institute of Estuarine and Coastal Studies:

> "the Burry Inlet populations have gone from an apparently stable population, composed of several age classes and supporting a lucrative fishery, to one in which high recruitment produces a first-year cohort which has good growth, and gives an early and successful reproduction (spawning) based on an increase in fatness. That spawning is then followed by death."[6]

20. Mae'r casglwyr cocos wedi croesawu ymchwiliad y Sefydliad i'r marwolaethau di-rif, ond wedi galw i'r ymchwiliad fod yn rhan o ymchwiliad parhaus[7] yn hytrach na bod yn brosiect annibynnol.

21. Yn wir, mae adroddiad y Sefydliad hefyd yn cydnabod yr angen am ymchwiliad pellach er mwyn deall y mater yn well a hwyluso rheolaeth effeithiol o'r gwelyau cocos.

22. Mae dyfodol y cocos ym Mornant Porth Tywyn yn ansicr. Mae adroddiad y Sefydliad yn nodi:

> "With time, one would then expect one of two alternatives – either this new state stabilises and becomes typical for the area or the population gradually regains its former characteristics with an increasing number of older individuals remaining to rebuild the typical age structure."[8]

23. Awgrymir bod lefelau marwolaethau cocos yn 2009 yn llawer is nag yn 2005, ac mae awgrymiadau bod mwy o gocos yn goroesi ail aeaf bellach. Ond eto, mae'r Sefydliad a'r casglwyr cocos yn cytuno bod angen dadansoddi'r data ymhellach er mwyn deall y mater yn iawn.

---

[6] Institute of Estuarine and Coastal Studies, *Technical report to the Environment Agency Wales: Burry Inlet Cockle Mortalities Investigation 2009-2011*, 17 Ionawr 2012, tudalen vi

[7] Llythyr gan y deisebydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 20 Gorffennaf 2010

[8] Institute of Estuarine and Coastal Studies, *Technical report to the Environment Agency Wales: Burry Inlet Cockle Mortalities Investigation 2009-2011*, 17 Ionawr 2012, tudalen vi

24. Yn y cyfamser, mae casglwyr cocos yn teimlo bod cael deupen llinyn ynghyd yn anodd a bod eu cynlluniau blaenorol ar gyfer cynyddu allforio ar chwâl.

## 3. Yr alwad am ymchwiliad cyhoeddus

25. Mae'r ddeiseb yn gofyn am:

> "ymchwiliad cyhoeddus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r llygredd carthffosiaeth ym Mornant Porth Tywyn a Bae Caerfyrddin"

26. Yn 2009, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru arwain ymchwiliad i farwolaethau cocos. Yna, comisiynodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'r astudiaeth sydd eisoes wedi'i chrybwyll, a gyflawnwyd gan yr Institute of Estuarine and Coastal Studies ym Mhrifysgol Hull mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr ICES; Prifysgol Abertawe; Cefas; Prifysgol Bangor; Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe a'r Ganolfan Eigioneg Genedlaethol. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar farwolaethau'r cocos yn hytrach nag ar lygredd carthion yr ardal, er bod llygredd yn un o'r materion a ystyriwyd.

27. Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am y system garthffosiaeth a dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "Our initial problem was that our understanding of how networks in the area worked was flawed. Once we went back in- and it started in 2010- we spent £1million remodelling and re-examining how the network operates, and doing an awful lot more monitoring of how the network operates. That work highlighted the scale of the rainwater that enters our networks in those two catchments…Once we started to put that information into our models we realised that our combined sewer overflows (CSOs) were spilling more frequently. At the same time, unfortunately, like all the water industry, we did not routinely monitor CSO's for spills, but that is something that we are doing now. The most important CSO's in the area are now monitored and we have a programme in place for putting in spill monitoring for all CSO's in areas close to bathing waters and shellfish waters."[9]

[9] Cofnod y Trafodion (CyT), Y Pwyllgor Deisebau, 1 Mai 2012

28. Mae’r llysoedd wedi craffu ar waith Dŵr Cymru yn yr ardal. Ym mis Ebrill 2011, cafodd ddirwy o £20,000 am ollwng carthion i’r môr ac mae barn y llysoedd ar y mater yn destun cofnod cyhoeddus.

29. O ystyried bod barn y llys ar y gollyngiadau carthion yn destun cofnod cyhoeddus, a bod adroddiad y Sefydliad yn ystyried y marwolaethau di-rif mewn ffordd gyfannol, ymddengys yn annhebygol y gallai ymchwiliad cyhoeddus i’r gollyngiadau carthion ychwanegu’n sylweddol at ein dealltwriaeth bresennol o’r mater. Felly, er bod y Pwyllgor yn cydymdeimlo â sefyllfa’r deisebwyr a’u dyhead i sicrhau atebion, nid yw o blaid yr alwad am ymchwiliad cyhoeddus.

30. Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod unrhyw gorff sy’n olynu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth i’r mater.

## 4. Atal gollyngiadau pellach

31. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried honiad y deisebwyr bod y gollyngiadau carthion yn cyfrannu at greu'r duedd bresennol o farwolaethau cocos di-rif yn yr ardal. Nid yw'r Pwyllgor yn ceisio rhagweld canlyniadau'r ystyriaethau hynny yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod popeth yn cael ei wneud i leihau'r posibilrwydd o ollyngiadau carthion pellach yn yr ardal er mwyn amddiffyn yr ardaloedd ymdrochi ac amgylcheddol sensitif yn lleol.

32. Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrth y Pwyllgor:

> "there are issues in relation to sewage treatment that needs to be addressed around the Burry Inlet. We accept that. There have been major improvements over the period since the mid 1990's. Those improvements continue… there are further proposals that would ensure that we meet the requirements of a variety of European Directives.
>
> "However, to really resolve the issues that Llanelli faces –and, to an extent, west Swansea, which drains to the Gowerton works that discharges to the Burry Inlet – and to deal with this problem, with all the roof water and surface water going into the same pipes as the dirty water, the ultimate solution is to remove the clean water from the foul water system and discharge that separately into the local water courses."[10]

33. Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen yn yr ardal. Fel cwmni di-elw, mae'r arian sydd ganddo i fuddsoddi mewn gwell seilwaith yn dod oddi wrth ei gwsmeriaid. Dywedodd Dŵr Cymru wrth y Pwyllgor:

> "There is always a difficult balance to be drawn between the pace of environmental improvements, which we know that we need to do, and the impact on customer bills, particularly at this particular time, given the way the economy is. That is why we must always sit down with colleagues in the Welsh Government and in the [Environment] Agency, because we would all like to do things much faster. However, in relation to

[10] CyT, Y Pwyllgor Deisebau, 1 Mai 2012

affordability, and particularly in relation to our least well-off customers, the impact of this type of investment can be quite considerable. It might drive bills up quite considerably."[11]

34. Dywedodd Dŵr Cymru hefyd wrth y Pwyllgor eu bod eisoes wedi buddsoddi tua £69 miliwn o arian eu cwsmeriaid[12] mewn gwelliannau i'r ardal a bod cynllun gwella pellach a fydd ar waith am y 10 mlynedd nesaf.

35. Mae'r Pwyllgor yn croesawu dymuniad Dŵr Cymru i wneud gwelliannau i'r system garthffosydd cyn gynted â phosibl, ac yn nodi'r cyfyngiadau cyllid sy'n wynebu'r cwmni di-elw.

36. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r drefn pennu blaenoriaethau a ddisgrifiwyd gan Dŵr Cymru:

> "The Welsh Government and the Environment Agency have essentially, for the past 25 years, always set the priorities for Dwr Cymru in terms of where we should focus our investment. It is true that in the past we have focused our investment on different places, but if there is a matter of importance to the Welsh Government, such as this issue and similar issues relating to the coast – whether it is the new bathing water directive or whatever water quality drive it happens to be – then that gets fed through the Environment Agency and effectively helps us in the business reprioritise where we place our customers' money."[13]

37. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen i bwyso a mesur y gwahanol bwysau ar gyllideb gyfyngedig ac yn croesawu dull cydweithredol Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Dŵr Cymru.

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trin yr angen am welliannau i'r system garthion yn ardal Llanelli fel blaenoriaeth ac mae'n gweithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau'r lefel angenrheidiol o fuddsoddiad yn yr ardal.**

---

[11] CyT, Y Pwyllgor Deisebau, 1 Mai 2012
[12] ibid
[13] ibid

### Atebion tymor byr

38. Dywedodd deisebwyr wrth y Pwyllgor fod Cyfarfod Rheoli dŵr/carthffosiaeth Llanelli wedi cytuno bod y system garthion yn cael ei rhoi dan bwysau oherwydd bod cymaint o ddŵr ffo yn cyrraedd y system garthion. Cytunodd aelodau'r grŵp Rheoli y byddai sugno'r dŵr ychwanegol o'r dalgylch yn cyfrannu'n sylweddol at greu ateb tymor byr i'r broblem o ollwng carthion.

39. Mae'r Pwyllgor Deisebau o'r farn bod mesurau tymor byr fel sugno'r dŵr ffo ychwanegol i system gerllaw sydd dan lai o bwysau yn elfen hollbwysig o raglen reoli effeithiol.

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Dŵr Cymru i roi atebion ar waith a fydd yn ysgafnhau'r pwysau ar y system garthion yn ardal Porth Tywyn yn y tymor byr, tan i'r atebion hirdymor sydd ar y gweill ar gyfer yr ardal gael eu gweithredu'n llawn.**

### Pwysau yn y dyfodol

40. Mae deisebwyr yn bryderus y bydd y system garthion yn cael ei rhoi dan bwysau pellach ar ôl adeiladu 16,000 o gartrefi newydd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol.

41. Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrth y Pwyllgor:

> "there are some provisions to ensure that any developments that take place do not make the situation any worse but can contribute to some of the solutions as well. There is a memorandum of understanding between us that requires developers to provide betterment to the situation, and not to provide additional impact, so that we can have a balanced approach to regeneration within the area."[14]

42. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r agwedd hon.

43. Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrth y Pwyllgor:

> "We have a much more fundamental understanding of what would be the best solutions, after the modelling work has been

[14] CyT, Y Pwyllgor Deisebau, 1 Mai 2012

> done on the surface and the sewage drainage systems so that we can come up with a proper integrated drainage solution for the whole town. There would be all sorts of additional gains from that, because it would involve sustainable drainage techniques, which would involve more green space, for example, and soak-away areas within the community. So, there is an opportunity for some enhancement of the urban environment alongside the drainage improvements."[15]

44. Teimlai Dŵr Cymru y byddai'r gwelliannau'n cynyddu'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a phroblemau carbon[16] hefyd.

45. Mae Dŵr Cymru wedi cyfaddef bod gwallau yn eu modelau rhwydwaith[17] wedi arwain at ollyngiadau amlach nag a ragwelwyd ganddynt yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, dylai'r cynlluniau cyfredol am welliannau gyfrannu i ryw raddau at dawelu meddyliau casglwyr cocos bod mater capasiti carthffosydd yn cael ei ystyried o ddifrif gan yr holl asiantaethau dan sylw.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth frwd i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Dŵr Cymru wrth iddynt ddarparu ateb draenio integredig ar gyfer Llanelli cyn gynted ag sy'n ymarferol. Dylai'r ateb draenio integredig geisio dargyfeirio llawer iawn o ddŵr ffo o'r system garthion er mwyn sicrhau cyn lleied o ollyngiadau â phosibl yn y dyfodol.**

[15] CyT, Y Pwyllgor Deisebau, 1 Mai 2012
[16] ibid
[17] ibid

## 5. Gwella rheolaeth y safle

46. Bydd atal gollyngiadau pellach yn gwella ansawdd y dŵr ar gyfer ymdrochwyr ar draethau lleol, ond nid yw effeithiau'r gollyngiadau ar welyau cocos yn glir. Felly, nid yw'n glir a fydd gwelliannau i'r system garthion yn arafu cyfradd marwolaethau'r cocos.

47. Mae'r casglwyr cocos wedi dweud bod y marwolaethau cocos di-rif bob blwyddyn yn cychwyn yn fuan ar ôl y Llanw Isel llai ym mis Mai. Maent wedi dweud wrth y Pwyllgor eu bod wedi gweld blŵm algaidd yn y dŵr ar yr adeg honno o'r flwyddyn ac yn amau ai newid yn nhymheredd y dŵr sy'n sbarduno'r marwolaethau di-rif hyn.

48. Mae adroddiad y Sefydliad wedi cydnabod bod angen astudiaeth bellach i'r gwelyau cocos yn yr ardal hon a bod angen gwaith pellach i ymchwilio i:

- a yw achosion marwolaethau mewn gwahanol flynyddoedd yr un fath;
- y berthynas rhwng crynodiad y cocos a'u hymddygiad, cystadleuaeth, goroesiad ac atgenhedliad;
- rôl parasitiaid;
- a yw'r cronfeydd ynni wrth gefn a'r gwariant ar gocos mewn ardaloedd sydd â chrynodiad is yn debyg i'r rhai mewn ardaloedd sydd â chrynodiad uwch;
- monitro'r boblogaeth gocos ymhellach dros gyfnodau hirach;
- ymchwiliadau pellach i opsiynau ar gyfer rheoli pysgodfeydd a'u heffeithiolrwydd, yn enwedig ar gyfer rhannu Mornant Porth Tywyn yn ardaloedd rheoli a/neu ddosrannu'r stoc cocos sydd ar gael yn well (e.e. un rhan o dair ar gyfer y bysgodfa, un rhan o dair ar gyfer ysglyfaethwyr ac un rhan o dair ar gyfer cynnal y boblogaeth gocos); ac
- a oes unrhyw risgiau bioddiogelwch wrth symud pobl a chocos i mewn ac allan o Fornant Porth Tywyn ac a yw hyn wedi cael effaith ar y boblogaeth gocos, neu a allai gael effaith.

49. Er mwyn cefnogi gwaith pellach ar y mater hwn, mae'r Pwyllgor yn credu yn y dyfodol y dylai canlyniadau unrhyw brofion ansawdd dŵr a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol, Dŵr Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod ar gael i'r cyhoedd. Byddai hyn nid yn unig yn

hwyluso astudiaeth bellach o'r ardal, ond byddai hefyd yn cyfrannu i ryw raddau at wella'r tryloywder a lleihau'r ddrwgdybiaeth ymysg casglwyr cocos ar hyn o bryd ynghylch y gyfundrefn profi ansawdd dŵr.

### Argymhelliad 4

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag asiantaethau priodol i hwyluso'r astudiaethau pellach a awgrymwyd gan yr Institute of Estuarineand Coastal Studies, ac yn ystyried profiadau ac arsylwadau'r casglwyr cocos am y gwelyau cocos yn ystod Llanw Isel fel rhan o'r astudiaethau pellach hynny.**

### Argymhelliad 5

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac unrhyw gyrff olynol a Chyngor Sir Caerfyrddin yn cyhoeddi canlyniadau pob prawf ansawdd dŵr ar gyfer Ardal Porth Tywyn, ac yn annog Dŵr Cymru yn frwd i wneud yr un fath.**

# 6. Cefnogi'r diwydiant cocos ym Mornant Porth Tywyn

50. Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi pwysleisio nad yw'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried ei bod yn briodol mynegi barn a dyfalu ynglyn â chanlyniadau ystyriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd o'r achos y mae'r casglwyr cocos wedi'i gyflwyno iddynt. Fodd bynnag, waeth beth yw achos y marwolaethau cocos di-rif, y canlyniad yw bod casglwyr cocos yn yr ardal bellach yn cael trafferth gwneud bywoliaeth.

51. Felly, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn briodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i adfywio ardal Porth Tywyn.

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig lefel gyffelyb o gefnogaeth i'r rhai y mae'r dirywiad yn niwydiant cocos Porth Tywyn wedi ei effeithio arnynt ag y mae'n ei gynnig i ardaloedd eraill sydd wedi dioddef yn sgil colli cyflogwr mawr.**

## Atodiad A: Tystion

52. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieListMeetings.aspx?CId=218&Year=2012

**Cyfarfod : 28 Chwefror 2012**
Y Cynghorydd Bill Thomas a deisebwyr

**Cyfarfod : 1 Mai 2012**
Dr Kathryn Monk, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Steve Brown, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Tony Harrington, Dŵr Cymru
Fergus O'Brien, Dŵr Cymru

## Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor i gefnogi tystiolaeth lafar. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=1287&Opt=3
a
http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-pc-home/bus-committees-third-pc-agendas.htm

| Tystiolaeth | Dyddiad yr Ystyriwyd gan y Pwyllgor |
|---|---|
| Erthygl newyddion Llanelli Star 13 Gorffennaf 2009 | 22 Medi2009 |
| Gohebiaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, 20 Hydref 2009 | 10 Tachwedd 2009 |
| Gohebiaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, 14 Rhagfyr 2009 | 19 Ionawr 2010 |
| Gohebiaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, 28 Chwefror 2010 | 23 Mawrth 2010 |
| Gohebiaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, 26 Ebrill 2010 | 11 Mai 2010 |
| Gohebiaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, 14 Mehefin 2010 | 29 Mehefin 2010 |
| Gohebiaeth gan Ddeisebydd, 20 Gorffennaf 2010 | 28 Medi 2010 |
| Gohebiaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, 25 Hydref 2010 | 16 Tachwedd 2010 |
| Gohebiaeth gan Ddeisebydd, 17 Mawrth 2011 | 29 Mawrth 2011 |
| Nodyn o Ymweliad Safle y Pwyllgor Deisebau â Phorth Tywyn | 13 Mawrth 2012 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | 1 Mai 2012 |
| Dŵr Cymru | 1 Mai 2012 |